

## Tasg 1

# A ddylen ni fod yn denu twristiaid i weld rhyfeddodau naturiol?

1. Dyma is-benawdau posibl i bob paragraff yn y darn. Rhowch nhw yn y drefn y dylen nhw fod ynnddi. Mae un is-bennawd wedi'i wneud i chi.

Mannau diarffordd mewn perygl o gael eu difetha	
Dewis arall yn lle teithio go iawn	
Perygl i ryfeddodau naturiol	1
Niferoedd ymwelwyr heb fod yn gynaliadwy	
'Rhestri bwced' yn cynnwys rhyfeddodau naturiol	

2. Ydy'r gosodiadau hyn yn gywir neu'n anghywir? Rhowch dystiolaeth o'r darn darllen hefyd i gefnogi eich barn.

	Gosodiad	Cywir / Anghywir	Tystiolaeth o'r darn
a.	Mae nifer cynyddol o ymwelwyr yn gobeithio cael profiadau 'gwahanol'.		
b.	Dydy rhyfeddodau naturiol ddim yn ymddangos ar 'restri bwced' y rhan fwyaf o bobl.		
c.	Mae mannau anghysbell yn mynd yn fwy poblogaidd.		
ch.	Rhaid creu seilwaith ar gyfer rhyfeddodau naturiol.		
d.	Mae miloedd ar filoedd o bobl yn ymweld â Sarn y Cawr bob blwyddyn.		

dd.	Mae'r awdur yn meddwl bod niferoedd yr ymwelwyr â Sarn y Cawr yn gynaliadwy.		
e.	Yn ôl yr awdur, mae'n bosibl cael profiad rhithwir yn lle ymweld â rhyfeddodau naturiol.		

3. Dyma rai o'r dadleuon yn y darn. I bob dadl, rhowch wrthddadl. Efallai bydd angen i chi wneud ychydig o ymchwil er mwyn dod o hyd i wrthddadl.

Yna, lluniwch baragraff sydd naill ai'n ateb y darn hwn, neu sy'n cytuno â safbwynt yr awdur.

<b>Dadl</b>	<b>Gwrthddadl</b>
Mae perygl y bydd nifer cynyddol y twristiaid yn difetha rhyfeddodau naturiol.	
Mae rhai rhyfeddodau naturiol ar 'restri bwced'.	
Gan fod pobl yn chwilio am brofiadau unigryw a gwahanol, mae rhyfeddodau naturiol mewn ardaloedd diarffordd mewn perygl.	
Dydy niferoedd yr ymwelwyr â Sarn y Cawr ddim yn gynaliadwy.	
Does dim rhaid ymweld â rhyfeddodau naturiol nawr gan fod technoleg yn cynnig profiad tebyg iawn.	

Ewch i'r dudalen nesaf.

4. Mae nifer o ferfenwau / ymadroddion yn y darn sydd ag arddodiaid yn eu dilyn, e.e. **chwilio am**.

- Heb edrych ar y darn, rhowch yr arddodiad cywir ar ôl y berfenwau / ymadroddion hyn. Mae'r rhan fwyaf ohonyn nhw yn y darn, ond mae rhai eraill hefyd.
- Wedyn, ysgrifennwch frawddeg sy'n cynnwys y berfenw (neu ferf) a'r arddodiad.

<b>Berfenw + arddodiad</b>	<b>Brawddeg enghreifftiol</b>
rhyfeddu .....	
chwilio .....	
creu argraff .....	
ymweld .....	
tarfu .....	
dweud .....	
siarad .....	

5. **Heb edrych ar y darn**, rhowch luosog y geiriau hyn:

twrist	
rhyfeddod	
profiad	
rhestr	
man	
teithiwr	
datblygiad	
rhaeadr	
rhywogaeth	

6. Mae'r darn yn sôn am 'gicio'r bwced', sy'n gyfieithiad o idiom Saesneg. Beth yw'r gair Cymraeg cywir?

7. Ydych chi wedi ymweld â rhywle a theimlo bod gormod o dwristiaid yno? Beth oedd eich barn am hyn? Oeddech chi'n teimlo'n euog o gwbl?

8. Pa fannau yng Nghymru sydd o dan bwysau oherwydd bod llawer o dwristiaid yn ymweld â nhw?

- Chwiliwch am wybodaeth am niferoedd y twristiaid sy'n ymweld â gwahanol fannau.
- Beth sy'n cael ei wneud er mwyn sicrhau nad yw'r mannau hyn yn cael eu difetha?
- Ydy hi'n bosibl rheoli twristiaeth heb ddinistrio bywoliaeth pobl leol?